**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2219 (Cy.159)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, mewn perthynas â Chymru, Benderfyniad y Comisiwn 99/724/EC (OJ Rhif L290, 12.11.99, t.32) - "Penderfyniad y Comisiwn" - i'r graddau y mae'n ymwneud â masnach rhwng Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd ac yn gosod rhwymedigaethau newydd ar y Deyrnas Unedig neu'n newid y rhwymedigaethau sydd arni.

Mae Penderfyniad y Comisiwn yn diwygio Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/118/EEC (OJ Rhif L62, 15.3.93, t.49) drwy osod gofynion newydd sy'n ymwneud â gelatin a fwriedir i bobl ei fwyta. Mae darpariaethau'r Gyfarwyddeb honno sy'n ymwneud â'r fasnach o fewn y Gymuned yn cael eu gweithredu gan Reoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 (O.S. 1996/3124). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1996 er mwyn rhoi eu heffaith i'r newidiadau a wneir gan Benderfyniad y Comisiwn.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhoi pwer i'r awdurdodau bwyd yng Nghymru roi, atal, tynnu'n ôl a dileu awdurdodiadau i ganolfannau casglu a thanerdai sy'n cyflenwi deunyddiau crai ar gyfer gweithgynhyrchu gelatin yn ddarostyngedig i ofynion Penderfyniad y Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gadw cofrestr o'r safleoedd a awdurdodir fel hyn.

Mae Arfarniad Rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn wedi'i baratoi yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru 1998 (1998 p.38) a gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Cymru), Llawr 1, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EN.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2219 (W.159)

# FOOD, WALES

## The Gelatine (Intra-Community Trade) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations implement in relation to Wales Commission Decision 99/724/EC (OJ No. L290, 12.11.99, p.32) - "the Commission Decision" - so far as it relates to trade between Member States of the European Community and imposes new or changed obligations on the United Kingdom.

The Commission Decision amends Annex II to Council Directive 92/118/EEC (OJ No. L62, 15.3.93, p.49) by imposing new requirements relating to gelatine intended for human consumption. The provisions of that Directive relating to intra-Community trade are implemented by the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996 (S.I. 1996/3124). These Regulations amend the 1996 Regulations to give effect to the changes made by the Commission Decision.

The Regulations also give power to food authorities in Wales to issue, suspend, withdraw and cancel authorisations of collection centres and tanneries which supply raw materials for the manufacture of gelatine subject to the requirements of the Commission Decision. The Food Standards Agency is required to maintain a register of premises so authorised.

A Regulatory Appraisal of these Regulations has been prepared pursuant to section 65 of the Government of Wales Act 1998 (1998 c.38) and copies may be obtained from the Food Standards Agency (Wales), 1st Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EN.

# 2001 Rhif 2219 (Cy.159)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001

*Wedi'u gwneud* *14 Mehefin 2001*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**a**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (**b**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Awst 2001. (2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "yr Asiantaeth" (*"the Agency"*) yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd(**c**);

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr â "food authority" yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990(**ch**); a

rhaid dehongli "canolfan gasglu" (*"collection centre"*), "tanerdy" (*"tannery"*) a "deunydd crai" (*"raw material"*) yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 1999/724/EC sy'n diwygio Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/118/EEC sy'n nodi gofynion ar gyfer iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd sy'n llywodraethu'r fasnach mewn cynhyrchion yn y Gymuned a mewnforion i'r Gymuned nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion a enwyd sydd wedi'u nodi mewn rheolau Cymunedol penodol y cyfeirir atynt yn Atodiad A(I) i Gyfarwyddeb 89/662/EEC neu, mewn perthynas â phathogenau, â Chyfarwyddeb 90/425/EEC (**d**).

(a) OS 1999/2788.

(b) 1972 p.68.

(c) A sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(ch) 1990 p.16. Mae adran 5 yn disgrifio'r awdurdodau sy'n awdurdodau bwyd at ddibenion y Ddeddf.

(d) OJ Rhif L290, 12.11.99, t.32.



# 2001 No. 2219 (W.159)

# FOOD, WALES

## The Gelatine (Intra-Community Trade) (Wales) Regulations 2001

*Made* *14th June 2001*

*Coming into force* *1st August 2001*

The National Assembly for Wales, being designated (**a**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 (**b**) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by the said section 2(2), hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the Gelatine (Intra-Community Trade) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st August 2001. (2) These Regulations apply to Wales only.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations -

"the Agency" (*"yr Asiantaeth"*) means the Food Standards Agency(**c**);

"collection centre" (*"canolfan gasglu"*), "tannery" (*"tanerdy"*) and "raw material" (*"deunydd crai"*) shall be construed in accordance with Commission Decision 1999/724/EC amending Annex II to Council Directive 92/118/EEC laying down animal health and public health requirements governing trade in and imports into the Community of products not subject to the said requirements laid down in specific Community rules referred to in Annex A(I) to Directive 89/662/EEC or, as regards pathogens, to Directive 90/425/EEC (**d**); and

"food authority" (*"awdurdod bwyd"*) has the same meaning as in the Food Safety Act 1990 (**e**).

(a) SI 1999/2788.

(b) 1972 c.68.

(c) Established by section 1 of the Food Standards Act 1999 (1999 c.28).

(d) OJ No. L 290, 12.11.99, p.32.

(e) 1990 c.16. Section 5 describes the authorities that are food authorities for the purposes of the Act

**Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996**

**3**. Caiff Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**a**) eu diwygio mewn perthynas â Chymru drwy ychwanegu'r cofnod canlynol, yn Atodlen 3, ar ddiwedd paragraff 12 -

"Commission Decision 1999/724/EC (OJ No. L290, 12.11.99, p.32)".

**Awdurdodi canolfannau casglu a thanerdai**

**4**.-(1) Pan wneir cais o dan y rheoliad hwn, rhaid i awdurdod bwyd awdurdodi canolfan gasglu neu danerdy os yw'r awdurdod bwyd wedi'i fodloni -

(a) bod gan y ganolfan gasglu neu'r tanerdy ystafelloedd storio a chanddynt loriau caled a waliau llyfn y mae'n hawdd eu glanhau a'u diheintio;

(b) bod gan y ganolfan gasglu neu'r tanerdy gyfleusterau oergell, os yw hynny'n briodol;

(c) bod ystafelloedd storio'r ganolfan gasglu neu'r tanerdy yn cael eu cadw mewn cyflwr boddhaol o ran glendid ac adeiladwaith, fel nad ydynt yn creu ffynhonnell i halogi'r deunyddiau crai;

(ch) bod, neu, yn ôl fel y digwydd, y bydd unrhyw ddeunydd crai nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir yn rhinwedd Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Deillio o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996 sy'n gymwys iddo, os yw'n cael neu os bydd yn cael ei storio neu ei brosesu ar y safle, wedi'i wahanu oddi wrth ddeunydd crai sy'n cydymffurfio felly drwy gydol y cyfnod derbyn, storio, prosesu ac anfon;

(d) bod gan yr awdurdod bwyd yr holl wybodaeth y mae arno ei angen er mwyn hysbysu'r Asiantaeth am yr awdurdodiad o dan reoliad 8(2)(a) o'r Rheoliadau hyn.

(2) Wrth ganiatáu unrhyw awdurdodiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r awdurdod bwyd roi rhif penodol i'r safle.

(a) OS 1996/3124, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Amendment of the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996**

**3.** The Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996 (**a)** shall be amended in relation to Wales by adding, in Schedule 3, at the end of paragraph 12, the following entry -

"Commission Decision 1999/724/EC (OJ No. L290, 12.11.99, p.32)".

**Authorisation of collection centres and tanneries**

**4.**-(1) A food authority shall, on application under this regulation, authorise a collection centre or tannery if the food authority is satisfied that -

(a) the collection centre or tannery has storage rooms with hard floors and smooth walls which are easy to clean and disinfect;

(b) where appropriate, the collection centre or tannery is provided with refrigeration facilities;

(c) the storage rooms of the collection centre or tannery are kept in a satisfactory state of cleanliness and repair, so that they do not constitute a source of contamination for the raw materials;

(d) if any raw material which does not conform to any requirement imposed by virtue of the Products of Animal Origin (Import and Export) Regulations 1996 which is applicable to it is or will be stored or processed in the premises, it is or, as appropriate, will be segregated throughout the period of receipt, storage, processing and dispatch from raw material which does so conform;

(e) the food authority has all the information it needs to notify the Agency of the authorisation under regulation 8(2)(a) of these Regulations.

(2) When granting any authorisation under this regulation, the food authority shall allocate a distinctive number to the premises.

(a) SI 1996/3124, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

**Atal awdurdodiadau a'u tynnu'n ôl**

**5**.-(1) Caiff awdurdod bwyd atal awdurdodiad o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn neu ei dynnu'n ôl os yw'r awdurdod bwyd wedi'i fodloni nad yw'r safle y caniatawyd yr awdurdodiad mewn perthynas ag ef yn bodloni'r gofynion a bennir yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i awdurdod bwyd beidio ag atal awdurdodiad neu ei dynnu'n ôl o dan y rheoliad hwn oni bai -

(a) ei fod wedi cyflwyno hysbysiad sy'n cydymffurfio â pharagraff (3) o'r rheoliad hwn i berchennog y busnes sy'n cael ei redeg ar y safle; a

(b) ei fod wedi'i fodloni, ar ôl i'r amser ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad ddod i ben, nad yw'r safle'n cydymffurfio â'r gofynion a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Rhaid i hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (2) o'r rheoliad hwn -

(a) datgan bod yr awdurdod bwyd yn bwriadu atal yr awdurdodiad neu, yn ôl fel y digwydd, ei dynnu'n ôl;

(b) nodi pob gofyniad a bennir yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn y mae'r awdurdod bwyd wedi'i fodloni na chydymffurfiwyd ag ef mewn perthynas â'r safle;

(c) mewn perthynas â phob gofyniad a bennir o dan is-baragraff (b) uchod, rhoi'r rhesymau pam y mae'r awdurdod bwyd wedi'i fodloni na chydymffurfiwyd â'r gofyniad; ac

(ch) datgan y gall yr awdurdodiad gael ei atal neu, yn ôl fel y digwydd, ei dynnu'n ôl oni bai bod perchennog y busnes yn cydymffurfio â'r gofynion a bennir yn yr hysbysiad o fewn unrhyw amser rhesymol a nodir yn yr hysbysiad.

**Yr hawl i apelio**

**6.**-(1) Caiff person a dramgwyddir gan benderfyniad gan awdurdod bwyd i wrthod awdurdodiad neu i atal awdurdodiad neu i dynnu awdurdodiad yn ôl apelio i lys ynadon.

(2) Bydd adran 37(3), (5) a (6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn effeithiol mewn perthynas ag apelau o dan y rheoliad hwn fel y maent yn effeithiol mewn perthynas ag apêl o dan yr adran honno.

(3) Ni fydd tynnu awdurdodiad yn ôl neu atal awdurdodiad yn dod yn effeithiol nes i'r amser ar gyfer apelio yn erbyn hynny ddod i ben ac, os gwneir apêl, nes penderfynu ar yr apêl yn derfynol.

**Suspension and withdrawal of authorisations**

**5**.-(1) A food authority may suspend or withdraw an authorisation under regulation 4 of these Regulations if the food authority is satisfied that the premises in relation to which the authorisation was granted do not satisfy the requirements specified in regulation 4 of these Regulations.

(2) A food authority shall not suspend or withdraw an authorisation under this regulation unless -

(a) it has served a notice complying with paragraph (3) of this regulation on the proprietor of the business carried on at the premises; and

(b) it is satisfied, after the time for compliance with the notice has expired, that the premises do not comply with the requirements specified in the notice.

(3) A notice served under paragraph (2) of this regulation shall -

(a) state that the food authority proposes to suspend or, as the case may be, withdraw the authorisation;

(b) identify each requirement specified in regulation 4 of these Regulations which the food authority is satisfied has not been complied with in relation to the premises;

(c) in relation to each requirement specified under sub-paragraph (b) above, give reasons why the food authority is satisfied that the requirement has not been complied with; and

(d) state that unless the proprietor of the business complies with the requirements specified in the notice within such reasonable time as is stated in the notice, the authorisation may be suspended or, as the case may be, withdrawn

**Right of appeal**

**6**.-(1) A person who is aggrieved by a decision of a food authority to refuse authorisation or to suspend or withdraw authorisation may appeal to a magistrates' court.

(2) Section 37(3), (5) and (6) of the Food Safety Act 1990 shall have effect in relation to appeals under this regulation as they have effect in relation to an appeal under that section.

(3) The withdrawal or suspension of an authorisation shall not take effect until the time for appealing against it has expired and, if an appeal is lodged, until the appeal is finally disposed of.

**Dileu awdurdodiad**

**7.** Rhaid i awdurdod bwyd ddileu awdurdodiad o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn -

(a) ar gais perchennog y busnes y mae'r safle wedi'i awdurdodi mewn perthynas ag ef; neu

(b) os yw'r awdurdod bwyd wedi'i fodloni nad yw'r busnes a oedd yn cael ei redeg ar y safle y rhoddwyd yr awdurdodiad ar ei gyfer yn cael ei redeg yno mwyach.

**Cofrestru**

**8**.-(1) Rhaid i'r Asiantaeth gadw cofrestr o safleoedd sydd wedi'u hawdurdodi o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i bob awdurdod bwyd hysbysu'r Asiantaeth, drwy unrhyw gyfrwng y mae'n rhesymol i'r Asiantaeth ofyn amdano:-

(a) o bob awdurdodiad a roddir gan yr awdurdod bwyd o dan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn;

(b) o bob awdurdodiad a dynnir yn ôl, a atelir neu a ddilëir gan yr awdurdod bwyd;

(c) o bob hysbysiad a roddir gan yr awdurdod bwyd o dan reoliad 5(2) o'r Rheoliadau hyn;

(ch) o unrhyw newid ym mherchennog y busnes sy'n cael ei redeg ar safle awdurdodedig;

(d) o unrhyw gamgymeriad neu hepgoriad sy'n dod i sylw'r awdurdod bwyd yn yr wybodaeth yn y gofrestr ynghylch unrhyw safle a awdurdodwyd gan yr awdurdod bwyd.

(3) Rhaid i bob hysbysiad gan yr awdurdod bwyd i'r Asiantaeth o dan baragraff (2) o'r rheoliad hwn gynnwys yr wybodaeth ganlynol -

(a) cyfeiriad y safle;

(b) enw perchennog y busnes sy'n cael ei redeg ar y safle;

(c) unrhyw enw masnachu neu enw arall (heblaw enw'r perchennog) yr adnabyddir y busnes sy'n cael ei redeg ar y safle wrtho;

(ch) y rhif adnabod a ddyrannwyd gan yr awdurdod bwyd o dan reoliad 4(2) o'r Rheoliadau hyn;

(d) ai fel canolfan gasglu ynteu fel tanerdy y mae'r safle wedi'i awdurdodi;

(dd) y dyddiad y mae'r awdurdodiad yn dod yn effeithiol a'r dyddiad y daeth unrhyw atal, tynnu'n ôl, neu ddileu ar yr awdurdodiad yn effeithiol.

**Cancellation of authorisation**

**7**. A food authority shall cancel an authorisation under regulation 4 of these Regulations -

(a) on the request of the proprietor of the business in relation to which the premises are authorised; or

(b) if the food authority is satisfied that the business carried on at the premises in respect of which the authorisation was granted is no longer being carried on there.

**Registration**

**8**.-(1) The Agency shall maintain a register of premises authorised under regulation 4 of these Regulations.

(2) Every food authority shall notify the Agency, by such means as is reasonably required by the Agency, of:-

(a) every authorisation issued by the food authority under regulation 4 of these Regulations;

(b) every withdrawal, suspension or cancellation by the food authority of such an authorisation;

(c) every notice issued by the food authority under regulation 5(2) of these Regulations;

(d) any change of the proprietor of the business carried on at authorised premises;

(e) any error or omission which comes to the attention of the food authority in the information in the register relating to any premises authorised by the food authority.

(3) Every notification by a food authority to the Agency under paragraph (2) of this regulation shall contain the following information -

(a) the address of the premises;

(b) the name of the proprietor of the business carried on at the premises;

(c) any trade name or other name (not being the name of the proprietor) by which the business carried on at the premises is known;

(d) the identifying number assigned by the food authority under regulation 4(2) of these Regulations;

(e) whether the premises are authorised as a collection centre or as a tannery;

(f) the date from which authorisation has effect and the date any suspension, withdrawal or cancellation of authorisation took effect.

(4) Rhaid i'r Asiantaeth gymryd mesurau rhesymol i drefnu bod yr wybodaeth ar y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ar adegau rhesymol.

(4) The Agency shall take reasonable measures to make the information on the register available to the public at reasonable times.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

*D. Elis Thomas*

14 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

14 June 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAUSTATUDOL

# 2001 Rhif 2219 (Cy.159)

# BWYD, CYMRU

Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2219 (W.159)

# FOOD, WALES

The Gelatine (Intra-Community Trade) (Wales) Regulations 2001

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090298-X

9 780110 902982

**£2.00**

W300/08/01 ON